Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Anthony Jordan
Pennaeth Gweithredu Rhaglen Ddeddfwriaethol
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

17eg Ebrill 2020

Annwyl Anthony,

Darpariaeth gofal cymdeithasol brys, camau gwirio cyn cyflogi mewn gofal preswyl a chartref i oedolion a ffurflenni blynyddol darparwyr

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill, ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth ddrafft i gefnogi darparu gofal cymdeithasol brys i oedolion ac i symleiddio'r camau gwirio cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr gofal preswyl a chartref newydd.

Deallaf yr angen i gynhyrchu cyfres o fesurau i gefnogi darparwyr gofal yn yr amgylchiadau eithriadol presennol. Fodd bynnag, hoffwn godi'r pryderon canlynol, yn arbennig mewn perthynas â'r bwriad i lacio'r camau gwirio cyn cyflogi ar gyfer gweithwyr a gwirfoddolwyr gofal preswyl a chartref newydd, yr wyf yn eu gwrthwynebu.

Un o fwriadau'r eithriad rhag cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yw galluogi i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau preswyl brys sy'n annhebygol o gyflawni'r safonau sy'n ofynnol i gofrestru gyda'r rheoleiddiwr o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Deddf 2016). Mae hyn yn ymddangos yn briodol a bydd yn helpu capasiti.

Fodd bynnag, rwy'n bryderus ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i fonitro'r sefyllfa mewn cartrefi gofal lle mae pobl hŷn yn derbyn gofal, yn arbennig o ganlyniad i adroddiadau yn y cyfryngau, sy'n gallu gwneud i bobl boeni am ddiogelwch eu hanwyliaid. Nid yw'n glir, o dan y drefn eithrio arfaethedig hon, a fydd y safonau gofal a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddedig (Darparwyr

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 yn parhau i fod yn berthnasol i'r gwasanaethau newydd a sefydlir i ddarparu gofal a chymorth brys CV-19 yn unig, yn absenoldeb cofrestriadau. Credaf y dylent.

Yn ogystal, nid yw'r drefn eithrio yn darparu unrhyw broses i gorff priodol fonitro neu dderbyn gwybodaeth am sut mae'r lleoliadau newydd sydd wedi'u heithrio yn cyflawni gofynion ac yn diogelu pobl agored i niwed yn ystod y cyfnod o hyd at naw mis. Os na fydd y lleoliadau sydd wedi'u heithrio wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, nid wyf yn glir pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau hyn. Felly, dylai'r rheoliadau nodi pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am y swyddogaeth hanfodol hon.

Rwy'n deall ac yn derbyn pam na ddylai'r gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gael eu cynnwys yn y drefn eithrio, ond dylai'r rhesymeg fod yn ddiamwys ac nid yn ymhlyg fel y'i nodir ar hyn o bryd. Rwy'n cwestiynu pam nad yw lefel debyg o ddiogelwch wedi'i hestyn i bobl hŷn nad oes galluedd ganddynt ac nad oes ganddynt deulu, yn arbennig o ystyried bod pobl hŷn yn fwy agored i Covid-19.

Am yr un rheswm, rwy'n gwrthwynebu'n gryf y cynnig i lacio'r gofynion ar ddarparwyr i gynnal camau gwirio cyn cyflogi ar gyflogeion ym maes gofal cartref a gofal preswyl. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth newydd COVID-19: Ceisiadau DBS a gwiriadau llwybr carlam o'r Rhestr Gwahardd am ddim yn cwmpasu gweithwyr cymdeithasol cofrestredig sy'n cael eu cyflogi i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd â, neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19, ond nid gweithwyr achos preswyl neu gartref anghofrestredig, y mae llawer ohonynt yn cyflawni gofal personol, heb oruchwyliaeth, yng nghartrefi pobl hŷn sy'n eithriadol o agored i niwed. Mae'n hollbwysig bod camau gwirio cyn cyflogi yn cael eu cynnal er mwyn eu diogelu. Mae'r risg uwch iddynt hwy yn sgil y mesurau newydd yn annerbyniol.

Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad y bydd pobl sy'n dymuno ymuno â'r sector gofal yn ystod y pandemig coronafeirws yn gallu gwneud hynny yn awr heb golli eu cyflog ffyrlo gan eu prif gyflogwr. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn awyddus iawn i glywed pa drefniadau sy'n cael eu gwneud i ddiogelu pobl hŷn agored i niwed sy'n cael eu cefnogi gan wirfoddolwyr, o ystyried nad yw'r gwiriad DBS llwybr carlam ar gael ar eu cyfer hwy eto.

Yr eiddoch yn gywir,

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru